

Siâp, safle a symudiad

Cyfnod Sylfaen - ystod	Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	CA2 - ystod	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
<p>Chwarae gyda siapiau; gwneud modelau a lluniau.</p> <p>Adnabod siapiau yn eu hamgylcheddau.</p> <p>Deall a defnyddio priodweddau siapiau:</p> <p>Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng siapiau 2-D a 3-D; gwybod enwau'r siapiau 2-D a 3-D mwyaf syml.</p> <p>Gwneud modelau a phatrymau cynyddol gymhleth neu gywir o siapiau.</p> <p>Didoli siapiau yn ôl un neu ragor o feini prawf.</p>	<p>Defnyddio siapiau 3D mewn gweithgareddau chwarae.</p> <p>Paru ac adnabod sgwâr, triogl a chylch.</p> <p>Paru siapiau drwy adnabod tebygrwydd.</p> <p>Defnyddio siapiau 2D i wneud patrymau a lluniau.</p> <p>Didoli siapiau gan ddefnyddio un maen prawf .</p>	<p>Defnyddio iaith bob dydd i ddisgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau 2D a 3D cyffredin mewn cyd-destun ymarferol.</p> <p>Defnyddio iaith bob dydd i gymharu a disgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau rheolaidd.</p> <p>Adnabod a dechrau defnyddio enwau mathemategol ar gyfer siapiau 3D a 2D.</p> <p>Siarad am batrymau a dilyniannau ailadroddus syml, neu'n eu dangos, yn eu hadnabod a'u copïo.</p> <p>Dechrau trefnu a dosbarthu siapiau. Gwybod pan fydd siâp yn wahanol a phan na fydd yn perthyn i gategori cyfarwydd.</p>	<p>Defnyddio iaith bob dydd i ddisgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau 2D a 3D cyffredin.</p> <p>Defnyddio iaith bob dydd i gymharu a disgrifio safleoedd a phriodweddau siapiau rheolaidd.</p> <p>Delweddu ac enwi siapiau 2D a solidau 3D.</p> <p>Adnabod, defnyddio a gwneud patrymau sy'n ailadrodd.</p> <p>Didoli a dosbarthu siapiau, gan ddangos y maen prawf y maent wedi ei ddefnyddio.</p>	<p>Deall, defnyddio a dechrau darllen geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Enwi a dosbarthu siapiau a disgrifio rhai o'u nodweddion.</p> <p>Gwneud modelau, siapiau a phatrymau a disgrifi'u nodweddion.</p> <p>Didoli a dosbarthu siapiau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf.</p>	<p>Deall a defnyddio priodweddau siapiau:</p> <p>Deall cyfathiant siapiau 2-D</p> <p>Gwybod a defnyddio priodweddau siapiau 2-D (polygon) a 3-D (polyhedron) cyffredin.</p> <p>Gwneud siapiau a phatrymau 2-D a 3-D yn fwyfwy manwl gywir.</p> <p>Enwi a dosbarthu siapiau 2-D yn ôl priodweddau ochr ac ongl.</p>	<p>Defnyddio, darllen a dechrau ysgrifennu geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Enwi a disgrifio rhai o briodweddau siapiau 2D a 3D.</p> <p>Dosbarthu siapiau mewn amryw o ffyrdd e.e. pedrochrau, nifer o wynebau, ymylon, fertigau; mathau o wynebau.</p>	<p>Defnyddio, darllen ac ysgrifennu geirfa fathemategol sy'n ymwneud â siapiau.</p> <p>Creu modelau, siapiau a phatrymau gyda chywirdeb cynyddol.</p> <p>Gwneud patrymau drwy drawsffudo siâp drosodd a throsgodd.</p> <p>Dosbarthu siapiau mewn amryw o ffyrdd e.e. nifer o onglau sgwâr, rheolaidd/afreolaidd, cymesuredd, priodweddau.</p>
<p>Deall a defnyddio priodweddau safle a symud:</p> <p>Ffitio siapiau a solidau gyda'i gilydd a'u symud mewn amrywiaeth o ddulliau.</p> <p>Datblygu ymwybyddiaeth o safle a symud yn ystod eu gweithgareddau corfforol eu hunain.</p> <p>Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer symudiadau syml. Ffitio siapiau a solidau gyda'i gilydd a'u symud mewn amrywiaeth o ddulliau.</p> <p>Adnabod trawsfudiadau a chylchdroeon fel symudiadau, a'u cyfuno mewn ffyrdd syml.</p> <p>Dechrau deall onglau fel modd i fesur tro, ac adnabod troeon cyfan, hanner troeon a chwarter troeon. Dechrau deall ongl fel mesuriad troad ac adnabod troeon cyfan, hanner troeon a chwarter troeon.</p>	<p>Dangos diddordeb mewn safle a'r berthynas rhwng gwrthrychau.</p> <p>Mewn cyd-destun ymarferol, dangos dealltwriaeth o eiriau, arwyddion a symbolau sy'n disgrifio maint a safleoedd a chyfeiriad.</p>	<p>Defnyddio iaith maint a threfn gwrthrychau mewn cyd-destun ymarferol.</p> <p>Canfod eitemau o gliwiau lleoliadol neu gyfeiriadol. Defnyddio geiriau bob dydd i ddisgrifio safle, symudiad a chyfeiriad. Rhoi gwrthrychau mewn safleoedd penodol mewn perthynas â'i gilydd.</p> <p>Dangos ymwybyddiaeth o gymesuredd.</p> <p>Deall iaith troeon mewn cyd-destun ymarferol. Symud mewn cyfeiriadau penodol mewn perthynas â phwynt cychwyn.</p>	<p>Ffitio siapiau 2D a 3D cyffredin at ei gilydd, a siarad am y patrymau a'r modelau maent wedi'u creu.</p> <p>Defnyddio iaith bob dydd i ddisgrifio safle, cyfeiriad a symudiad e.e. uwchben, o dan, wrth ochr, i'r chwith, i'r dde, ymlaen, yn ôl, lan a lawr.</p> <p>Gwneud patrymau cymesur drwy blygu a thorri.</p> <p>Adnabod, gwneud a siarad am droeon cyfan a hanner troeon.</p>	<p>Defnyddio iaith maint a threfn gwrthrychau mewn cyd-destun ymarferol.</p> <p>Defnyddio geirfa fathemategol i ddisgrifio safle, cyfeiriad a symudiad e.e. dilyn a rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer symud ar hyd llwybr mewn llinellau syth ac o gwmpas corneli.</p> <p>Dechrau adnabod cymesuredd llinellau drwy fraslunio adlewyrchiad siâp syml mewn llinell ddrych.</p> <p>Adnabod hanner troeon a chwarter troeon. Gwybod bod ongl sgwâr yn fesuriad chwarter tro ac adnabod onglau sgwâr mewn troeon, sgwariau a phetryalau. Gwahaniaethu rhwng symudiadau syth a symudiadau sy'n troi. Adnabod troeon clocwedd a gwrthglocwedd.</p>	<p>Deall a defnyddio priodweddau safle a symud.</p> <p>Adnabod priodweddau safle a symud, a defnyddio'r rhain i ddosbarthu siapiau.</p> <p>Defnyddio cyfesurynnau positif i bennu lleoliad.</p> <p>Adnabod cymesuredd adlewyrchiad a chymesuredd cylchdro siapiau 2-D.</p> <p>Defnyddio onglau sgwâr, ffracsiynau o dro a graddau i fesur cylchdro.</p>	<p>Disgrifio a darganfod safle sgwâr ar grid o sgwariau gyda rhesi a cholofnau wedi'u labeli.</p> <p>Defnyddio, darllen a dechrau ysgrifennu geirfa safle, cyfeiriad a symudiad. Defnyddio'r pedwar pwynt cwpawd i ddisgrifio cyfeiriadau.</p> <p>Nodi llinellau cymesur mewn siapiau syml ac adnabod siapiau heb linellau cymesur. Braslunio adlewyrchiad siâp syml mewn llinell ddrych ar hyd un ymyl.</p> <p>Nodi onglau sgwâr mewn siapiau 2D a'r amgylchedd. Deall bod llinell syth yn ddwy ongl sgwâr.</p>	<p>Disgrifio a darganfod safle pwynt ar grid lle mae'r llinellau wedi'u labeli. Dechrau defnyddio'r term cyfesuryn.</p> <p>Defnyddio'r wyth pwynt cwpawd i ddisgrifio safle, cyfeiriad a symudiad o gwmpas grid.</p> <p>Braslunio adlewyrchiad siâp syml mewn llinell ddrych sy'n baralel i un ochr (pob llinell yn baralel neu'n berpendicwlar i'r llinell ddrych).</p> <p>Gwybod bod tro cyfan yn 4 ongl sgwâr, a bod chwarter tro yn 1 ongl sgwâr, neu'n 90 °. Gwybod bod onglau'n cael eu mesur mewn graddau. Gwneud a mesur troeon clocwedd a gwrthglocwedd, a'u disgrifio yn nhermau graddau.</p>

